

Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2019

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol adrodd ar y gwaith o weinyddu pob etholiad cyffredinol yn y DU. Rydym wedi edrych ar y modd y cafodd etholiad 2019 ei gynnal, profiad pleidleiswyr o gymryd rhan yn yr etholiad, a'r modd y cafodd negeseuon ymgyrchwyr eu cyfleu i bleidleiswyr. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau a'r hyn ddylai newid ar gyfer etholiadau yn y dyfodol yn ein barn ni.

Crynodeb

Cafodd yr etholiad ei gynnal yn dda ar y cyfan, ond mae tystiolaeth newydd sy'n dangos heriau ar gyfer y dyfodol

Cynhaliwyd etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019 ddydd Iau 12 Rhagfyr. Cofrestrwyd mwy na 40 miliwn o bobl i bleidleisio, a phleidleisiodd 67% o'r rhain. Roedd lefelau uchel o foddhad â'r broses cofrestru i bleidleisio a'r broses pleidleisio. Roedd y rhain yn debyg i etholiadau eraill yn y DU.

Fodd bynnag, y tu ôl i'r darlun hwn sy'n gadarnhaol yn gyffredinol, rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth o bryderon a phroblemau yn yr etholiad hwn. Ni chafodd rhai pobl y gwasanaeth y dylent allu ei ddisgwyl, ac nid oedd llawer yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda.

Er i fwy na dwy ran o dair o bobl ddweud eu bod yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda, dywedodd lleiafrif sylweddol o bron i un o bob pum person wrthym nad oeddent yn hyderus. Dewisodd llawer o'r bobl hyn resymau oedd yn ymwneud â phryderon ynghylch ymgyrchu neu'r cyfryngau i egluro pam nad oeddent yn hyderus. Hefyd, dewisodd rai bryderon a oedd yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y broses gofrestru neu bleidleisio yn gweithio.

Mae ein hadroddiad yn disgrifio sut mae strwythurau gweinyddu etholiadau y DU yn gweithredu o dan straen sylweddol, ac yn dangos bod gan bobl bryderon cynyddol ynghylch rhai agweddau ar ymgyrchoedd etholiadol.

Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r broses o gynnal etholiadau. Digwyddodd hyn cyn ystyried effaith lawn pandemig Covid-19, a oedd ond yn dechrau dod i'r amlwg ar adeg cyhoeddi'r adroddiad. Mae'n bosibl y bydd rhagor o argymhellion er mwyn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol yn y dyfodol.

Heriau cynnal etholiadau

- Roedd Swyddogion Cofrestru Etholiadol dan bwysau gan fod nifer mawr o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi'u gwneud yn agos at y dyddiad cau, a bu'n rhaid iddynt dreulio amser ar adeg dyngedfennol yn delio â llawer o geisiadau dyblyg
- Ni chafodd rhai etholwyr tramor ddigon o amser i dderbyn a dychwelyd pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, fel oedd wedi digwydd o'r blaen, a olygodd na ellid cyfrif eu pleidleisiau
- Daeth amseru'r etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr â heriau penodol i Swyddogion Canlyniadau, a gafodd fwy o drafferth i recriwtio staff a threfnu gorsafodd pleidleisio a lleoliadau cyfrif

Heriau yn sgil dulliau datblygol a ddefnyddir mewn ymgyrchoedd etholiadol

- Mae cynnwys a dulliau cyflwyno camarweiniol yn tanseilio ymddiriedaeth pleidleiswyr mewn ymgyrchoedd etholiadol
- Nid yw ychwaith yn amlwg pwy sydd y tu ôl i ddeunydd ymgyrchoedd etholiadol digidol yn aml, ac mae perygl y bydd pryderon sylweddol ymysg y cyhoedd ynghylch tryloywder ymgyrchoedd etholiadol digidol yn drech na'u buddiannau
- Cafodd rhai ymgeiswyr lefelau sylweddol ac annerbyniol o fygythiadau, camdriniaeth neu fygylyu

Mynd i'r afael â'r heriau hyn cyn etholiad cyffredinol nesaf y DU

Nid yw llawer o'r heriau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn rhai newydd. Rydym wedi gweld materion tebyg yn codi mewn etholiadau eraill diweddar yn y DU. Ond mae'r dystiolaeth a welwyd ar ôl yr etholiad hwn yn dangos bod gan y cyhoedd a gweinyddwyr etholiadau bryderon sylweddol.

Mae cyfle rhwng nawr a'r etholiad cyffredinol arfaethedig nesaf i gyflwyno newid gwirioneddol, amddiffyn hyder yn y ffordd y caiff etholiadau eu cynnal a gwella ymddiriedaeth mewn ymgyrchoedd. Mae angen dechrau cymryd camau nawr, er mwyn helpu i sicrhau na fydd hyder yn lleihau ymhellach mewn etholiadau yn y dyfodol.

Mae ein hadroddiad yn nodi meysydd lle mae angen i lywodraethau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a rheoleiddwyr gydweithio er mwyn cytuno ar gyfreithiau, prosesau neu safonau ymddygiad newydd. Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n ymarferol ac y byddant o fudd i bleidleiswyr ac yn gwella hyder y cyhoedd.

Cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i fodloni disgwyliadau pleidleiswyr

- Mae angen i Lywodraeth y DU nodi gwelliannau i'r gwasanaeth ar-lein ar gyfer cofrestru i bleidleisio, systemau meddalwedd ar gyfer rheoli etholiadau a'r model cyllido ar gyfer etholiadau, er mwyn helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i reoli niferoedd mawr o geisiadau i gofrestru mewn modd effeithiol (yn cynnwys ceisiadau dyblyg) cyn digwyddiadau etholiadol mawr
- Dylai Llywodraeth y DU hefyd archwilio diwygiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl gofrestru neu ddiweddarau eu manylion drwy gydol y flwyddyn, fel drwy integreiddio ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiadau gwasanaethau cyhoeddus eraill
- Mae angen i Lywodraeth y DU ystyried dulliau newydd arloesol o wella'r broses o bleidleisio ar gyfer etholwyr tramor, gan ddefnyddio tystiolaeth o wledydd eraill, yn enwedig o ystyried ei chynlluniau i gynyddu nifer y dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor sy'n gymwys i bleidleisio
- Mae angen i dair llywodraeth y DU nodi sut y byddant yn symleiddio ac yn moderneiddio cyfraith etholiadol, gan adeiladu ar yr argymhellion cynhwysfawr gan Gomisiynau'r Gyfraith a gefnogir yn dda

Cefnogi ymddiriedaeth a hyder mewn ymgyrchoedd etholiadol

- Mae angen i ymgyrchwyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol gymryd mwy o gyfrifoldeb am gynnwys ymgyrchoedd y maent yn eu cynnal ynghyd â'r ffordd y cânt eu cyflwyno, ac effaith eu gweithgareddau ar hyder y cyhoedd mewn etholiadau
- Mae angen i Lywodraeth y DU wneud cynnydd ar ei hymgyngoriad arfaethedig ar ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod yn rhaid i ymgyrchwyr gynnwys gwybodaeth amdanynt eu hunain ar ddeunydd ymgyrchu digidol
- Mae angen i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol roi data mwy manwl a chywir am ymgyrchoedd etholiadol a gwariant mewn llyfrgelloedd hysbysebion ar eu llwyfannau er mwyn sicrhau bod mwy o wybodaeth am bwy sy'n ymgyrchu ar gael i ni a'r pleidleiswyr

Cefnogi pobl sydd am sefyll fel ymgeiswyr

- Dylai pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill, Llywodraeth y DU a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol barhau i gymryd camau i fynd i'r afael ag achosion o fygylyu er mwyn sicrhau na fydd pobl yn penderfynu peidio â sefyll etholiad neu ymgyrchu oherwydd y risg o gamdriniaeth, bygythiadau neu fygylyu

Cynnal yr etholiad

- Roedd pobl yn fodlon iawn ar y broses cofrestru i bleidleisio a'r broses pleidleisio yn etholiad cyffredinol 2019, ac yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr etholiad a sut i gofrestru a bwrw eu pleidlais
- Roedd nifer y ceisiadau i gofrestru a wnaed cyn y dyddiad cau yn uwch o lawer nag yn etholiad cyffredinol 2017 – gwnaeth 3.85 miliwn o bobl gais i gofrestru i bleidleisio, yn cynnwys 660,000 a wnaeth gais ar y diwrnod olaf i gofrestru
- Mae data gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn dangos bod tua un o bob tri chais yn rhai dyblyg, wedi'u cyflwyno gan rywun a oedd wedi cofrestru'n gywir eisoes, ac mewn rhai ardaloedd, mae'r data yn awgrymu bod cyfran y ceisiadau dyblyg hyd yn oed yn uwch
- Y pryder a nodwyd amlaf mewn adborth gan etholwyr tramor oedd nad oeddent wedi derbyn eu pleidlais bost mewn da bryd i allu ei chwblhau a'i dychwelyd
- Dywedodd mwy na thraean y gweinyddwyr etholiadau a ymatebodd i'n harolwg eu bod nhw neu eu timau yn cael trafferth ymdopi â gofynion y rôl a'r llwyth gwaith ychwanegol yn sgil digwyddiadau etholiadol nas cynlluniwyd yn 2019

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol dan bwysau yn sgil y nifer mawr o geisiadau mewn digwyddiadau etholiadol mawr

Mae diddordeb y cyhoedd mewn digwyddiadau etholiadol mawr yn cynyddu nifer y ceisiadau i gofrestru yn y cyfnod cyn etholiadau. Mae proses gofrestru ar-lein hygyrch yn golygu ei bod yn hawdd i bobl sydd am sicrhau y gallant gymryd rhan gyflwyno cais, a gwneud hynny yn agos at y dyddiad cau.

Roedd Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau dan bwysau i brosesu niferoedd mawr o geisiadau i gofrestru yn ystod y cyfnod cyn y dyddiad cau ym mis Tachwedd 2019. Roedd nifer y ceisiadau a wnaed cyn y dyddiad cau yn uwch o lawer nag yn etholiad 2017:

2017	2019
2.9 miliwn o bobl	3.85 miliwn o bobl
wnaeth gais rhwng cyhoeddiad y Prif Weinidog ynghylch yr etholiad a'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru	wnaeth gais rhwng yr adeg y pleidleisiodd ASau i gymeradwyo'r etholiad a'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru
612,000 o bobl	660,000 o bobl

Arweiniodd y nifer mawr o geisiadau dyblyg at bwysau diangen ychwanegol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau. Mae data gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn dangos bod llawer o geisiadau wedi cael eu cyflwyno gan bobl a oedd eisoes wedi cofrestru'n gywir:

- Roedd tua un o bob tri chais a gawsant cyn y dyddiad cau yn rhai dyblyg
- Mewn rhai ardaloedd, roedd cyfran y ceisiadau dyblyg hyd yn oed yn uwch
- Dim ond tua hanner yr holl geisiadau a arweiniodd at ychwanegu enw at y gofrestr

Cawsom adborth gan 160 o Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau neu weinyddwyr etholiadau ledled y DU. Dywedodd bron hanner (46%) y rhai a ymatebodd i'n harolwg fod nifer y ceisiadau dyblyg a gafwyd yn ystod yr etholiad wedi achosi straen ar adnoddau ac ar staff, y bu'n rhaid iddynt weithio llawer o oriau ychwanegol er mwyn eu prosesu mewn pryd, ynghyd â phrosesu ceisiadau i bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy.

"Mae'r broses o ymdrin â cheisiadau dyblyg yn hunllef drwy gydol y flwyddyn, ond mae'n draenio adnoddau mewn etholiad proffil uchel."

"Mae nifer y ceisiadau dyblyg yn annerbyniol ac yn creu llwyth gwaith ychwanegol anferth heb unrhyw fudd i'r gofrestr."

Adborth gan weinyddwyr etholiadau

Hefyd, roedd y dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio drwy'r post ar yr un diwrnod ym Mhrydain Fawr, ar ôl i'r Senedd newid y gyfraith; pasiodd Ddeddf Etholiad Cyffredinol Cynnar y Senedd 2019 ym mis Tachwedd, er mwyn sicrhau bod y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar yr un diwrnod ledled y DU. Dywedodd Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadau wrthym eu bod dan fwy o bwysau yn yr etholiad hwn am eu bod wedi gorfod prosesu'r ddau fath o gais erbyn yr un dyddiad cau.

O ganlyniad i'r pwysau hyn, cafodd Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau drafferth i ddarparu lefel yr adnoddau oedd ei hangen i brosesu ceisiadau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu na chafodd pleidleiswyr y gwasanaeth y dylent allu ei ddisgwyl. Er enghraifft:

- Yn Plymouth, roedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cynnwys 1,451 o bobl ar y gofrestr etholwyr nad oeddent wedi cwblhau cais unigol i gofrestru. Cafodd y broblem hon ei nodi a'i datrys cyn y diwrnod pleidleisio, ond arweiniodd at ddryswch ynghylch a allai rhai pobl bleidleisio yn yr etholiad. Nid oedd llawer o amser wedyn i'r bobl yr effeithiwyd arnynt wneud cais i gofrestru'n gywir cyn y dyddiad cau. Ni wnaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol gyrraedd ein safonau perfformiad yn llawn.

- Yng Ngogledd Iwerddon, anfonodd y Swyddfa Etholiadol llythrau yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ofynnol gan rai pobl a oedd wedi gwneud cais i bleidleisio, ond roedd rhai o'r llythrau yn cynnwys dyddiad cau anghywir ar gyfer ymateb. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Etholiadol y byddai cofrestriad unrhyw un a ymatebodd ar ôl y dyddiad hwn ond cyn y dyddiad cau gwirioneddol wedi cael ei brosesu'n gywir.¹

Dyweddodd gweinyddwyr etholiadau wrthym hefyd fod y nifer mawr o geisiadau i gofrestru a cheisiadau am bleidlais absennol wedi effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio ar gynnal yr etholiad ar adeg dyngedfennol.

"Roedd yn heriol iawn cynnal ein lefel brosesu i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd pob diwrnod gwaith – bu sawl aelod o staff yn gweithio oriau ychwanegol bob nos ac ar benwythnosau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod. Gwelsom gynnydd sydyn yn lefelau'r ceisiadau i gofrestru, ceisiadau am Bleidlais Absennol a chynnydd yr un mor sydyn yn nifer y ceisiadau gan etholwyr tramor. Hefyd, roedd 33% o'r ceisiadau yn y cyfnod cyn yr etholiad yn geisiadau dyblyg i gofrestru."

Adborth gan weinyddwr etholiadau

Mae angen mwy o gymorth ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w helpu i barhau i gyflawni'r lefel o wasanaeth y dylai pobl allu ei disgwyl cyn digwyddiadau etholiadol mawr. Dylai Llywodraeth y DU ystyried y model cyllido ar gyfer etholiadau Senedd y DU yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ymdopi â niferoedd mawr o geisiadau i gofrestru. Yn fwy sylfaenol, dylai hefyd ystyried ffyrdd o wella'r gwasanaeth ar-lein ar gyfer cofrestru i bleidleisio a'r systemau meddalwedd rheoli etholiadau er mwyn lleihau nifer y ceisiadau dyblyg i gofrestru a'u heffaith.

Dylai Llywodraethau'r DU hefyd archwilio diwygiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl gofrestru neu ddiweddarau eu manylion drwy gydol y flwyddyn, fel integreiddio ceisiadau mewn cysylltiadau gwasanaethau cyhoeddus eraill neu ddulliau cofrestru mwy awtomatig. Gallai hyn helpu i leihau'r angen i bobl wneud ceisiadau newydd yn y cyfnod cyn etholiad.

Unwaith eto, wynebodd etholwyr tramor heriau wrth bleidleisio

Cafodd rhai dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor drafferth i sicrhau y gellid cyfrif eu pleidleisiau. Roedd ychydig dros 230,000 o bobl wedi cofrestru fel etholwyr tramor, sy'n cyfrif am 0.5% o gyfanswm etholwyr y DU.

¹ Nid yw ein pŵer i bennu a monitro safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn dal i gredu y dylid ehangu ein fframwaith safonau perfformiad i gynnwys Gogledd Iwerddon a byddwn yn ymgysylltu ymhellach â'r Prif Swyddog Etholiadol a Swyddfa Gogledd Iwerddon er mwyn datblygu hyn.

Roedd gan lawer o etholwyr tramor a ddewisodd bleidleisio drwy'r post amserlen dynn i dderbyn a dychwelyd eu papurau pleidleisio drwy'r post cyn y diwrnod pleidleisio:

- Dim ond ar ôl y dyddiad cau ar gyfer enwebu ymgeiswyr ar 14 Tachwedd y gallai Swyddogion Canlyniadau ddechrau argraffu papurau pleidleisio
- Roedd hyn yn golygu bod llai na phedair wythnos ganddynt i argraffu a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post, ac i etholwyr tramor dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu papurau pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio
- Dim ond pythefnos oedd gan bobl a gofrestrodd i bleidleisio neu a wnaeth gais am bleidlais bost yn agos at y dyddiad cau i dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais bost

Cawsom adborth ar ôl yr etholiad gan fwy na 500 o bleidleiswyr tramor Y broblem a nodwyd amlaf ganddynt oedd nad oeddent wedi derbyn eu pleidlais bost mewn da bryd i'w chwblhau a'i dychwelyd. Roedd etholwyr tramor yn dibynnu ar gyflymder y gwasanaeth post yn y wlad lle maent yn byw.

"Cyrhaeddodd fy mhecyn pleidleisio drwy'r post dramor y diwrnod cyn yr etholiad. Roedd hyn yn golygu nad oedd gennyf ddigon o amser i'w dychwelyd, felly ni allwn bleidleisio er fy mod am wneud hynny."

"Cyrhaeddodd y bleidlais brynhawn dydd Sadwrn. Talais \$35 am wasanaeth postio cyflym er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd y DU cyn gynted â phosibl ond nid oedd yn debygol y byddai'n cyrraedd mewn pryd (mae llythyrau yn cymryd tua wythnos i gyrraedd fel arfer). Wn i ddim pam y cyrhaeddodd mor hwyr."

"NID YW'N GWEITHIO. Cafodd fy mhost ei anfon yn rhy hwyr iddo gyrraedd mewn da bryd i mi ei dychwelyd, felly ni fydd yn cyrraedd y DU erbyn y dyddiad cau. Nid oes gennyf bleidlais."

"Ni chyrhaeddodd fy mhleidlais bost tan 5 diwrnod gwaith cyn yr etholiad, oedd yn golygu y byddai'n amhosibl i'm pleidlais gael ei chyfrif."

Barn etholwyr tramor

Dyweddodd rhai etholwyr tramor wrthym hefyd nad oeddent yn gwybod y gallent ofyn i rywun yn y DU bleidleisio ar eu rhan drwy'r post ('pleidlais ddirprwy drwy'r post'). Gallai hyn fod wedi bod yn fwy cyfleus i'r pleidleisiwr drwy ddirprwy, yn hytrach na bod yn rhaid iddo deithio i orsaf bleidleisio a allai fod yn bell o'i gartref ei hun.

Dyweddodd mwy na hanner (53%) y gweinyddwyr etholiadau a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi treulio llawer o amser yn delio ag ymholiadau gan bleidleiswyr tramor a oedd yn cael problemau gyda'u pleidleisiau post neu ddirprwy yn ystod yr etholiad. Cawsom hefyd niferoedd mawr o ymholiadau cyn yr etholiad gan bobl sy'n byw dramor a oedd am gael gwybod a allent bleidleisio a sut i wneud hynny.

Nid dyma'r tro cyntaf i ni weld tystiolaeth o'r problemau hyn ar gyfer etholwyr tramor. Gwnaethom dynnu sylw at dystiolaeth yn ein hadroddiadau statudol ar etholiadau

cyffredinol y DU yn 2015 a 2017, yn ogystal ag ar ôl refferendwm yr UE yn 2016 ac etholiad Senedd Ewrop yn 2019.

Yn etholiad cyffredinol 2019, sefydlodd Swyddfa'r Cabinet a'r Post Brenhinol system i ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post yn gyflymach i etholwyr tramor. Mae'n ymddangos bod hyn wedi gwella'r profiad i rai etholwyr, ond nid oedd digon o amser o hyd i etholwyr tramor mewn rhai gwledydd ddychwelyd eu pleidleisiau mewn pryd iddynt gael eu cyfrif.

Dylai etholwyr tramor allu disgwyl y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif. Dylai Llywodraeth y DU ystyried dulliau pleidleisio newydd ac arloesol ar gyfer etholwyr tramor, gan ddefnyddio tystiolaeth o wledydd eraill. Gallai hyn gynnwys y gallu i lawrlwytho ac argraffu papurau pleidleisio drwy'r post neu bleidleisio mewn llysgenadaethau a swyddfeydd is-genhadon.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynyddu nifer y dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor a all gofrestru i bleidleisio, drwy gael gwared ar y cyfyngiad amser presennol o 15 mlynedd ers y tro diwethaf iddynt gofrestru i bleidleisio yn y DU. Wrth i'r problemau a nodwyd o ran pleidleisio drwy'r post effeithio ar fwy o bleidleiswyr, bydd hyd yn oed yn bwysicach sicrhau bod gan etholwyr tramor ffyrdd o bleidleisio sy'n golygu y gallant fod yn hyderus y caiff eu pleidleisiau eu cyfrif mewn etholiadau Senedd y DU yn y dyfodol.

Arweiniodd amseriad yr etholiad at heriau i Swyddogion Canlyniadau

Roedd amseriad etholiad 2019 yn anarferol; hwn oedd yr etholiad cyffredinol cyntaf ers 1923 i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr, ac roedd y diwrnod pleidleisio ei hun lai na phythefnos cyn y Nadolig. Arweiniodd hyn at heriau penodol i Swyddogion Canlyniadau a'u timau.

Yn ogystal, dechreuodd y broses etholiadol pan oedd y canfasiad cofrestru etholiadol blynyddol a gynlluniwyd yn dal i fynd rhagddo ledled Prydain Fawr. Bu'n rhaid i dimau gweinyddu etholiadau gwblhau eu cyfrifoldebau cyfreithiol i brosesu ffurflenni canfasio a ddychwelwyd gan aelwydydd a gwahodd trigolion newydd i gofrestru i bleidleisio, ar yr un pryd â sefydlu'r broses o weinyddu'r etholiad.

Nododd yr adborth a gawsom gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau neu weinyddwyr etholiadau o bob cwr o'r DU rai o'r heriau cyffredin a wynebwyd ganddynt:

- Roedd staff a oedd yn gweithio mewn timau etholiadau dan bwysau mawr a bu'n rhaid iddynt weithio oriau hir er mwyn cwblhau'r canfasiad blynyddol a chynnal yr etholiad ar yr un pryd
- Cafodd rhai systemau meddalwedd rheoli etholiadau broblemau yn rhedeg prosesau etholiad ochr yn ochr â'r canfasiad blynyddol

- Cafodd Swyddogion Canlyniadau fwy o drafferth i recriwtio staff dros dro, yn cynnwys staff gorsafoedd pleidleisio a staff cyfrif, ar gyfer etholiad a gynhaliwyd ychydig cyn y Nadolig
- Roedd rhai lleoliadau y bydd Swyddogion Canlyniadau yn eu defnyddio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio neu ar gyfer y cyfrif fel arfer eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau tymhorol ac nid oeddent ar gael ar gyfer yr etholiad hwn.
- Nodwyd bod y cynnydd yn y post dros gyfnod y Nadolig wedi arwain at oedi wrth ddosbarthu a dychwelyd pleidleisiau post mewn rhai ardaloedd

Dywedodd mwy na thraean (38%) o'r gweinyddwyr etholiadau a ymatebodd i'n harolwg eu bod nhw neu eu timau wedi cael trafferth ymdopi â gofynion y rôl a'r llwyth gwaith ychwanegol yn sgil digwyddiadau etholiadol nas cynlluniwyd yn 2019. Cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol cynnar ym mis Rhagfyr ar ôl etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai 2019 ledled y DU a oedd wedi'u hamserlennu o hyd o dan y gyfraith ond na ddisgwyliwyd iddynt gael eu cynnal. Hefyd, cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol a gynlluniwyd mewn sawl rhan o Loegr a ledled Gogledd Iwerddon ym mis Mai.

"Mae'r pwysau ar weinyddwyr etholiadau yn anghynnaladwy. Hwn oedd ein trydydd etholiad llawn mewn blwyddyn, yr oedd dau ohonynt heb eu cynllunio. Mae ein hiechyd meddwl yn fregus ar y gorau. Rydym wedi ymlâdd ac wedi diflasu'n llwyr."

Adborth gan weinyddwr etholiadau

Gwelsom dystiolaeth o wallau argraffu ar gardiau pleidleisio neu becynnau pleidleisio drwy'r post a achosodd ddryswch i etholwyr mewn nifer bach o etholaethau. Eglurodd rhai Swyddogion Canlyniadau eu bod o'r farn bod y risg o wallau argraffu yn uwch yn yr etholiad hwn oherwydd y terfynau amser tynn ar gyfer gwirio proflenni, ynghyd â'r pwysau ar argaeledd a chapasiti argraffwyr.

- Yn Waltham Forest, ni chafodd becynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn wreiddiol at 1,470 o bleidleiswyr post am nad oedd ffeil data wedi cael ei hanfon at yr argraffwyr. Cafodd y pleidleisiau post eu dosbarthu ar ôl i'r broblem gael ei nodi. Hysbyswyd yr ymgeiswyr a'r asiantiaid ynghylch hyn a rhoddwyd gwybodaeth ar wefan y cyngor. Fodd bynnag, am fod rhai pleidleiswyr post wedi cael eu pleidlais bost yn agos iawn at y diwrnod pleidleisio, mae'n bosibl na wnaethant lwyddo i'w llenwi a'i dychwelyd mewn pryd iddi gael ei chyfrif. Ni wnaeth y Swyddog Canlyniadau gyrraedd ein safonau perfformiad yn llawn.
- Yn Newcastle under Lyme, cafodd 380 o bleidleiswyr post becynnau pleidleisio drwy'r post dyblyg. Anfonwyd llythyrau at y pleidleiswyr hyn i egluro pa bleidlais y dylent ei dychwelyd ar ôl i'r broblem gael ei nodi. Hysbyswyd yr ymgeiswyr a'r asiantiaid hefyd gan y Swyddog Canlyniadau, a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg. Fodd bynnag, gallai hyn fod wedi peri dryswch i rai pleidleiswyr post am eu bod wedi cael dau becyn pleidleisio drwy'r post unfath. Ni wnaeth y Swyddog Canlyniadau gyrraedd ein safonau perfformiad yn llawn.

Mae'r pwysau croes a'r gwallau hyn hefyd yn ganlyniad i'r heriau o gynnal etholiadau o fewn fframwaith cyfraith etholiadol cynyddol gymhleth y mae angen ei ddiweddarau, a gwelwyd problemau tebyg eisoes mewn etholiadau a gynhaliwyd ar adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig lle caiff etholiadau gwahanol eu cyfuno a'u cynnal ar yr un diwrnod.

"Anodd iawn ei ddilyn. Mae deddfwriaethau gwahanol a rhai deddfwriaethau diweddarach yn gwrthddweud deddfwriaeth gynharach ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r cyfnod presennol a thechnoleg bresennol."

Adborth gan weinyddwr etholiadau

Mae Comisiynau'r Gyfraith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bellach wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar eu hadolygiad manwl o gyfraith etholiadol. Maent wedi gwneud argymhellion i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith a fyddai'n helpu i wella'r ffordd y caiff etholiadau eu cynnal. Mae angen i lywodraethau'r DU ymrwymo adnoddau ac amser i ddiwygio cyfraith etholiadol, gan adeiladu ar yr argymhellion cynhwysfawr hyn a gefnogir.

Mae gan bleidleiswyr farn gadarnhaol ynghylch y ffordd y cafodd yr etholiad ei gynnal o hyd

Ar ôl pob etholiad, rydym yn gwneud gwaith ymchwil â'r cyhoedd er mwyn holi eu barn ynghylch cymryd rhan yn yr etholiad. Canfu ein hymchwil bod pobl yn fodlon iawn ar y broses o gofrestru i bleidleisio a'r broses bleidleisio yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019:

- Roedd 78% o'r bobl yn fodlon ar y broses o gofrestru i bleidleisio
- Roedd 93% o'r bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad yn fodlon ar y broses bleidleisio

Roedd pobl hefyd yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr etholiad:

- Dywedodd 80% o'r bobl eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am yr etholiad
- Dywedodd 81% o'r bobl eu bod wedi gallu cael gafael ar wybodaeth am ddiben yr etholiad yn rhwydd
- Dywedodd 88% o'r bobl eu bod wedi gallu cael gafael ar wybodaeth am sut i gofrestru i bleidleisio, a sut i fwrw eu pleidlais yn rhwydd

Mae'r rhain yn debyg i lefelau cadarnhaol o foddhad a welwyd mewn etholiadau neu refferenda eraill ledled y DU yn ddiweddar.

Dywedodd mwy na dwy ran o dair o'r bobl (69% o bleidleiswyr a'r rheini na wnaethant bleidleisio) eu bod naill ai'n hyderus iawn neu'n gymharol hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda (dywedodd 12% nad oeddent yn gwybod). Roedd hyn yn debyg i'r lefel a welwyd yn etholiad cyffredinol y DU yn 2010, ond yn is yn gyffredinol o gymharu ag etholiadau neu refferenda eraill a gynhaliwyd ledled y DU dros y blynyddoedd diwethaf, a deg pwynt canran yn is na chanlyniad 2017 (lle roedd 79% yn hyderus). Fodd bynnag, ni all ein harolwg ar gyfer 2019 ddweud wrthym a yw hyder y cyhoedd yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd yn y gorffennol neu a yw hyn yn ddechrau dirywiad mwy sylweddol.

Dyweddodd lleiafrif sylweddol o bobl (18%) nad oeddent yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda. Gwnaethom ofyn i'r bobl hyn ddewis rhesymau pam nad oeddent yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda.

Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin yn ymwneud â phryderon ynghylch ymgyrchu neu'r cyfryngau, a drafodir yn adran nesaf yr adroddiad hwn. Hefyd, dewisodd rai bryderon a oedd yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y broses gofrestru neu bleidleisio yn gweithio:

- Dywedodd 28% o'r rheini nad oeddent yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda nad oeddent yn meddwl bod rhai pobl wedi cael y cyfle i bleidleisio neu eu bod wedi'u hamddifadu o'r cyfle hwnnw
- Dywedodd 22% nad oeddent yn hyderus am fod yr etholiad wedi cael ei gynnal ar fyr rybudd
- Dywedodd 17% nad oeddent yn hyderus am eu bod yn meddwl bod rhai pobl wedi cael anawsterau wrth gofrestru i bleidleisio

Dyweddodd mwy na 7 allan o 10 o'r holl bleidleiswyr a'r rheini na wnaethant bleidleisio (72%) eu bod yn meddwl bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamdriniaeth.

Dyweddodd cyfran fach iawn o bobl eu bod wedi cael profiad uniongyrchol neu ail-law o dwyll etholiadol yn yr etholiad: Dywedodd 2% eu bod yn adnabod rhywun a oedd wedi cyflawni twyll etholiadol; Dywedodd 1% eu bod wedi gweld rhywun yn pleidleisio pan nad oedd ganddo hawl i wneud hynny. Er y canrannau isel hyn, dywedodd mwy na thraean o'r bobl (38%) eu bod yn meddwl bod rhyw fath o dwyll wedi digwydd yn yr etholiad.

Mae hyn yn gyson â thystiolaeth ynghylch honiadau o dwyll etholiadol yn yr etholiad. Dengys data gan heddluoedd eu bod wedi cofnodi 156 o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â'r etholiad. Nid oedd angen cymryd camau pellach ar gyfer mwy na hanner yr achosion hyn yn dilyn ymholiadau gan yr heddlu, a chafodd un o bob chwech ohonynt eu datrys yn lleol. Mae traean o'r achosion a gofnodwyd yn destun ymchwiliad o hyd.

Ymgyrchu yn yr etholiad

- Roedd pobl yn pryderu ynghylch dulliau ymgyrchu camarweiniol o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, a thuedd yn y cyfryngau, a chawsom nifer mawr o gwynion yn codi pryderon am gyflwyniad, tôn a chynnwys ymgyrchoedd etholiadol
- Mae tryloywder ynghylch pwy sydd y tu ôl i ymgyrchoedd gwleidyddol ar-lein mewn etholiadau yn bwysig i bobl yn y DU. Yn ein gwaith ymchwil ar ôl yr etholiad, cytunodd bron i dri chwarter y bobl ei bod yn bwysig iddynt gael gwybod pwy luniodd y wybodaeth wleidyddol maent yn ei gweld ar-lein, ond llai na thraean oedd yn cytuno y gallant ganfod pwy â'i lluniodd
- Dywedodd nifer sylweddol o ymgeiswyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael eu bygylu, gydag un rhan o chwech wedi wynebu lefelau sylweddol. Camdriniaeth ar-lein oedd y gweithgarwch mwyaf cyffredin a nodwyd gan y rheini a oedd wedi cael problemau
- Aeth Llywodraeth y DU a chyrrff eraill ati i fonitro yn ystod cyfnod yr etholiad am risgiau i'r prosesau democrataidd yn sgil ymyrraeth o dramor a thwyllwbyodaeth gyfundrefnol, a dywedodd Llywodraeth y DU fod gwaith yn mynd rhagddo i archwilio'r agweddau hyn ar ôl yr etholiad

Gallai dulliau ymgyrchu camarweiniol danseilio ymddiriedaeth pleidleiswyr

Mae democratiaethau yn dibynnu ar allu ymgyrchwyr i gyfathrebu â phleidleiswyr. Yn yr un modd, mae angen i bleidleiswyr allu ymddiried yn y wybodaeth y mae ymgyrchwyr yn ei rhoi iddynt.

Yn etholiad cyffredinol 2019, roedd pleidleiswyr yn pryderu ynghylch y defnydd o ddulliau ymgyrchu camarweiniol gan ymgyrchwyr o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol. Yn ystod y cyfnod ymgyrchu, gwnaethom atgoffa ymgyrchwyr bod gan bleidleiswyr hawl i dryloywder ac uniondeb, a gwnaethom alw ar bob ymgyrchydd i ymgymryd â'i rôl hanfodol mewn modd cyfrifol.

Cafodd pleidleiswyr wybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau yn yr etholiad o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Dywedodd dros hanner y bobl a gymerodd ran yn ein harolwg ar ôl yr etholiad eu bod wedi gweld deunyddiau ymgyrchu gan bleidiau ac ymgeiswyr, a dywedodd tua thraean eu bod wedi cael gwybodaeth o'r dadleuon rhwng yr arweinwyr ar y teledu neu o ffynonellau ar-lein.

- Dywedodd 55% o'r bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil ar ôl yr etholiad eu bod wedi cael gwybodaeth o daflenni
- 32% o'r dadleuon rhwng arweinwyr y pleidiau ar y teledu
- 29% o bapurau newydd neu wefannau newyddion

- 24% o negeseuon cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion gan ymgyrchwyr

Yn ystod cyfnod yr etholiad, cododd pleidleiswyr bryderon yn uniongyrchol â ni a rheoleiddwyr eraill ynghylch deunydd digidol a deunydd wedi'i argraffu yr oedd rhai ymgyrchwyr yn ei ddefnyddio yn yr etholiad. Roeddent yn pryderu ynghylch cyflwyniad, labelu neu gynllun deunydd ymgyrchu a oedd yn gamarweiniol yn eu barn nhw, a hefyd ynghylch negeseuon a chynnwys rhai ymgyrchoedd.

Pryderon y cyhoedd ynghylch dulliau ymgyrchu camarweiniol

- Roedd rhai ymgyrchwyr wedi brandio eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol mewn ffyrdd a oedd yn golygu nad oedd yn amlwg pwy oedd yn gyfrifol amdanynt, neu a oedd yn defnyddio dolenni camarweiniol i wefannau a oedd yn annog pobl i ymweld â'u gwefannau; roedd enghreifftiau eraill yn defnyddio clipiau fideo wedi'u golygu i gyflwyno eu gwrthwynebwyr mewn ffordd negyddol
- Nid oedd gwybodaeth am bwy oedd yn gyfrifol am ddeunydd ymgyrchu wedi'i argraffu bob amser yn glir nac yn hawdd ei darllen; nid oedd rhai deunyddiau ymgyrchu digidol yn cynnwys unrhyw wybodaeth am eu ffynhonnell
- Roedd rhai taflenni wedi'u cynllunio i edrych fel papurau newydd lleol; roedd eraill yn defnyddio lliwiau sydd fel arfer yn gysylltiedig â phleidiau eraill
- Roedd rhai ystadegau wedi'u dyfynnu'n anghywir neu wedi'u cyflwyno mewn ffyrdd camarweiniol a heb gyd-destun pwysig

Dylai ymgyrchwyr gynnwys gwybodaeth amdanynt eu hunain – sef 'argraffnod' – ar eu deunydd ymgyrchu. Mae'r gyfraith eisoes yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hyn ar gyfer deunydd a gaiff ei argraffu ym Mhrydain Fawr ond nid yng Ngogledd Iwerddon.

Yn yr etholiad hwn, roedd problemau â deunyddiau rhai ymgyrchwyr yng Ngogledd Iwerddon nad oeddent yn nodi pwy oedd yn gyfrifol amdanynt. Dylai Llywodraeth y DU ddiweddarau'r gyfraith fel bod ymgyrchwyr etholiadol yng Ngogledd Iwerddon yn gorfod rhoi argraffnodau ar eu deunyddiau sydd wedi'u hargraffu.

Cafwyd cwynion hefyd gan bleidleiswyr ym Mhrydain Fawr am fod rhai ymgyrchwyr wedi cynnwys argraffnodau nad oeddent yn glir ar lythyrau neu daflenni. Dylai pob ymgyrchydd barchu ysbryd y rheolau argraffnod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain y gellir ei darllen yn rhwydd.

Ceir tystiolaeth o'n gwaith ymchwil ar ôl yr etholiad sy'n ymwneud â gwirionedd a thryloywder yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd:

- Roedd mwy na hanner y bobl (58%) yn cytuno â'r datganiad bod "ymgyrchu ar-lein yn anghywir neu'n gamarweiniol" yn gyffredinol
- Roedd cyfran debyg (60%) yn anghytuno â'r datganiad "y gellir ymddiried yn y wybodaeth sydd ar gael ar-lein am wleidyddiaeth"
- Yn gyffredinol, dywedodd bron i un o bob pum person (18%) nad oeddent yn hyderus bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda, ac o'r bobl hyn, dewisodd bron

i'w hanner (49%) y rheswm "roedd yr ymgyrchu yn seiliedig ar wybodaeth anghywir/yn gwneud honiadau anghywir"

- Pan wnaethom ofyn i bobl flaenoriaethu eu pryderon ynghylch yr etholiad o restr o broblemau, dywedodd dwy ran o dair o'r bobl (67%) fod "tuedd yn y cyfryngau" yn broblem a dywedodd hanner ohonynt (52%) fod "rheolaeth annigonol o weithgarwch gwleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol" yn broblem

Rydym wedi tynnu sylw at ein pryderon ynghylch y materion hyn o'r blaen. Os bydd pleidleiswyr yn colli ymddiriedaeth a hyder mewn ymgyrchu gwleidyddol, bydd democratiaeth yn gyffredinol yn dioddef. Mae angen i ymgyrchwyr, ymgeiswyr a phleidiau gymryd mwy o gyfrifoldeb dros gyflwyniad a chynnwys ymgyrchoedd y maent yn eu cynnal ac effaith eu gweithgareddau ar hyder y cyhoedd mewn etholiadau.

Ni allwn fforddio colli'r cyfle rhwng nawr a'r etholiad cyffredinol arfaethedig nesaf. Mae angen newid gwirioneddol er mwyn gwarchod ymddiriedaeth a hyder mewn ymgyrchoedd mewn etholiadau yn y dyfodol ac uniondeb ein democratiaeth. Bydd angen i lywodraethau, pleidiau, ymgyrchwyr, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a rheoleiddwyr gydweithio i gytuno ar gyfreithiau neu safonau ymddygiad newydd. Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae angen moderneiddio'r rheolau i ymgyrchwyr ar gyfer yr oes ddigidol

Mae dulliau a sianelau digidol newydd wedi newid y dirwedd ymgyrchu yn y DU yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Gall ymgyrchu digidol fod yn rhywbeth cadarnhaol, drwy annog deialog a dadl wleidyddol.

Fodd bynnag, rydym yn gweld tystiolaeth bod pryderon ynghylch tryloywder yn dechrau mynd yn drech na'r buddiannau hyn. Mae hyn yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn ymgyrchoedd.

Cadarnhaodd ein hymchwil ar ôl yr etholiad fod tryloywder ynghylch pwy sydd y tu ôl i ymgyrchoedd gwleidyddol ar-lein mewn etholiadau yn bwysig i bobl yn y DU:

- Cytunodd bron i dri chwarter y bobl (72%) ei bod yn bwysig iddynt wybod pwy luniodd y wybodaeth wleidyddol maent yn ei gweld ar-lein
- Llai na thraean (29%) oedd yn cytuno y gallant ganfod pwy sydd wedi llunio'r wybodaeth wleidyddol maent yn ei gweld ar-lein
- Roedd bron i'w hanner (46%) yn cytuno eu bod yn pryderu ynghylch pam a sut roedd hysbysebion gwleidyddol yn cael eu targedu atynt

Dim ond i ddeunydd sydd wedi'i argraffu y mae'r rheolau argraffnod yn gymwys ac nid ydynt yn cwmpasu deunydd digidol. Mae hyn yn creu bwch anferth yn y rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu gwybodaeth amdanynt eu hunain ar eu deunydd ymgyrchu.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn ymgynghori ar reolau newydd ar gyfer argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu digidol; byddwn yn helpu i ddatblygu'r rheolau

newydd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi tryloywder i bleidleiswyr a'u bod yn ymarferol i ymgyrchwyr. Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol sicrhau bod y broses o roi argraffnodau ar ddeunydd digidol y talwyd amdano a deunydd digidol nas talwyd amdano yn rhwydd i ymgyrchwyr pan fydd yn ofyniad cyfreithiol.

Dylai Llywodraeth y DU hefyd bennu cynlluniau i foderneiddio'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr er mwyn cyd-fynd â'r oes ddigidol. Dylai'r gyfraith ddweud wrth ymgyrchwyr a llwyfannau digidol faint o wybodaeth y mae angen iddynt ei rhoi i bleidleiswyr, y cyfryngau, ymgyrchwyr eraill a rheoleiddwyr, yn cynnwys y Comisiwn, ynghyd â'r math o wybodaeth.

Yn yr etholiad hwn, cyhoeddodd Facebook, Google a Snapchat llyfrgelloedd ac adroddiadau ar yr hysbysebion gwleidyddol a gynhaliwyd ar eu llwyfannau a'u sianelau yn ystod yr etholiad. Gwnaethant hefyd ei gwneud yn ofynnol i hysbysebwr gwleidyddol roi ymwadiad '*Talwyd amdano gan*' ar eu hysbysebion gwleidyddol.

Mae'r mesurau hyn yn gam yn y cyfeiriad cywir ac maent yn ein galluogi i weld pwy sy'n talu i osod hysbysebion. Ond nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth am ymgyrchoedd digidol o hyd.

Cyfyngiadau mesurau tryloywder y cyfryngau cymdeithasol a'r ffyrdd ymlaen

- Mae gan y cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ddiffiniadau gwahanol o hysbysebion gwleidyddol nad ydynt yn cyd-fynd yn llwyr â chyfraith etholiadol. Dylent sicrhau bod eu polisiau yn cyd-fynd â diffiniadau cyfreithiol ymgyrchoedd etholiadol
- Nid yw'r ymwadiadau 'Talwyd amdano gan' bob amser yn nodi'n glir pwy sydd y tu ôl i'r hysbysebu. Dylai ymwadiadau gynnwys enw'r person neu'r sefydliad a awdurdododd yr hysbyseb ymgyrchu etholiadol, nid dim ond enw neu slogan ymgyrch
- Nid yw polisiau'r cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd ymgyrchoedd etholiadol nas talwyd amdano gael ei labelu fel deunydd gwleidyddol, ac mae hyn yn golygu na fydd yn ymddangos yn y llyfrgelloedd hysbysebion. Dylai eu polisiau gwmpasu ymgyrchoedd etholiadol nas talwyd amdanynt y mae ymgyrchwyr yn eu cyhoeddi i gyrraedd pleidleiswyr a chael eu rhannu gan eraill
- Mae Facebook a Google yn cynnwys gwybodaeth eang iawn am ble y targedwyd hysbysebion. Os felly, dylent ddangos pa etholaethau a dargedwyd. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr hysbyseb ei hun ac yn y llyfrgelloedd hysbysebion
- Mae'r llyfrgelloedd hysbysebion yn cynnwys amrediadau'r symiau y mae ymgyrchwyr yn eu gwario. Dylent ddarparu ffigurau penodol ar y symiau a wariwyd

Gwirfoddol yw'r mesurau hyn, ac nid yw pob cwmni sy'n cynnal hysbysebion gwleidyddol wedi creu labeli arbennig na llyfrgelloedd hysbysebion. Dylai fod gofyniad cyfreithiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am bwy sy'n ymgyrchu ar gael i ni a phleidleiswyr. Dylai fod yn ofynnol i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol roi data mwy manwl a chywir am ymgyrchoedd etholiadol a gwariant yn eu llyfrgelloedd hysbysebion er mwyn sicrhau bod mwy o wybodaeth am bwy sy'n ymgyrchu ar gael i ni a phleidleiswyr.

Mae'r cwmnïau eu hunain wedi dweud y byddent yn croesawu gofynion clir a chyson ynghylch sut y dylent ddelio â deunydd ymgyrchu. Dylai Llywodraeth y DU nodi ffyrdd posibl o gyflawni hyn, er enghraifft drwy'r fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig ar niweidiau ar-lein.

Ond nid dim ond cwmnïau cyfryngau cymdeithasol sydd angen bod yn fwy tryloyw ynghylch gwariant ar ymgyrchu mewn etholiadau; dylai ymgyrchwyr hefyd fod yn gyfrifol am wella tryloywder ynghylch eu hymgyrchoedd. Yn 2018, gwnaethom nodi y dylent roi gwybodaeth fanylach am eu gwariant ar ôl etholiad.

Rydym yn parhau i argymhell hyn a byddwn yn siarad ag ymgyrchwyr am y ffyrdd y gallai hyn weithio yn ymarferol. Dylai Llywodraeth y DU gynnwys cynigion ar gyfer rhoi'r argymhelliad hwn ar waith yn ei hymgyngoriad arfaethedig ar uniondeb etholiadol er mwyn diwygio ein cyfreithiau ar gyfer yr oes ddigidol.

Mae angen dull cyfannol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ymgeiswyr yn cael eu bygylu

Mae dadl wleidyddol agored yn rhan hanfodol o etholiadau, ond gwelwyd pryder cynyddol mewn etholiadau diweddar ynghylch bygylu ac ymddygiad bygythiol tuag at ymgeiswyr ac ymgyrchwyr.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, gwnaethom ofyn amrywiaeth eang o gwestiynau i ymgeiswyr ynghylch a oeddent wedi cael eu bygwth, eu cam-drin neu eu bygylu, neu a oedd ganddynt bryderon ynghylch hyn. Dyma'r tro cyntaf i ni ganolbwyntio ar y mater hwn yn ein harolwg o ymgeiswyr ar ôl yr etholiad.

Dywedodd rhai wrthym eu bod wedi wynebu lefelau sylweddol ac annerbyniol o fygythiadau, camdriniaeth neu fygylu. Camdriniaeth ar-lein oedd y gweithgarwch mwyaf cyffredin a nodwyd gan y rheini a oedd wedi cael problemau.

Cawsom adborth gan 776 o ymgeiswyr, gan gynrychioli ychydig o dan chwarter o'r cyfanswm a safodd etholiad.

- Dim ond chwarter yr ymgeiswyr hynny a ymatebodd (27%) a ddywedodd nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau o ran bygythiadau, camdriniaeth neu fygylu
- Dywedodd mwy na hanner (54%) yr ymgeiswyr hynny a roddodd adborth i ni fod ganddynt bryderon ynghylch sefyll etholiad a oedd yn gysylltiedig â bygythiadau, camdriniaeth neu fygylu
- Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr (73%) eu bod wedi wynebu rhywfaint o gamdriniaeth, bygythiadau neu fygylu, a dywedodd un o bob chwech eu bod wedi wynebu lefelau sylweddol. Roedd rhai ymgeiswyr o'r farn bod camdriniaeth a bygylu cydgysylltiedig gan gefnogwyr pleidiau neu achosion eraill
- Ar-lein y gwelwyd yr achosion mwyaf cyffredin o gam-drin, bygwth neu fygylu (nodwyd hyn gan 82% o'r bobl a roddodd adborth i ni), ond clywsom adroddiadau am gamdriniaeth ar lafar ac mewn deunydd wedi'i argraffu hefyd

- Dywedodd bron i un o bob deg o'r rheini a nododd eu bod wedi cael eu cam-drin (9%) ei fod wedi cynnwys camdriniaeth gorfforol

Dengys data a ddarparwyd gan heddluoedd yn y DU ar ôl yr etholiad fod ychydig dros hanner (54%) wedi cael adroddiadau am fygythiadau, camdriniaeth neu fygyly tuag at ymgeiswyr neu'r rheini a oedd yn ymgyrchu ar eu rhan.

"Er mwyn amddiffyn ein democratiaeth, mae angen i ni fod yn llawer mwy gweladwy wrth ddelio ag achosion o fygyly a pheidio â goddef yr hyn sydd, yn y bôn, yn ymyrraeth etholiadol ac yn ymdrech i geisio dylanwadu ar ganlyniad etholiad."

"Mae'n fater mwy cymhleth na nodi bod 'rhywun' ar fai neu'n gyfrifol amdano. Mae'n broblem gymdeithasol ehangach sy'n cwmpasu democratiaeth, parch i'r broses ddemocrataidd a'r obsesiwn difriol a chyson o geisio beio a chosbi'r rheini mewn bywyd cyhoeddus."

Adborth gan ymgeiswyr

Dywedodd llawer o ymgeiswyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu plaid wleidyddol neu'r heddlu mewn perthynas â mynd i'r afael ag achosion o fygyly neu gamdriniaeth. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu plaid wleidyddol (57%) ac roedd oddeutu dau o bob pump yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr heddlu.

Roedd cefnogaeth er mwyn helpu ymgeiswyr i gynnal ymgyrchoedd parchus ac i amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth ar-lein neu mewn digwyddiadau cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd gennym ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Coleg Plismona. Roedd yna hefyd nifer o fentrau a dynnodd sylw at ymddygiadau cadarnhaol lle gallai ymgeiswyr ymrwymo i gyfrannu at ymgyrch etholiadol barchus.

Hefyd, yn ystod yr etholiad, rhoddodd rhai o'r cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ganllawiau i ymgeiswyr ynghylch diogelwch ar-lein a sefydlu sianel adrodd er mwyn tynnu sylw at gynnwys sy'n bygyly. Er hyn, dywedodd bron i saith o bob deg ymgeisydd (69%) nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o gwbl gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn cytuno â chasgliadau [adolygiad](#) ar fygyly mewn bywyd cyhoeddus gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a argymhellodd yn 2018 fod angen dull cyfannol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o fygyly ymgeiswyr ac eraill. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n rhan o'r broses wleidyddol i ystyried effeithiau eu hymddygiad ar ddemocratiaeth yn y DU.

- Rhaid i bleidiau gwleidyddol barhau i gydweithio â'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar y Safon Ymddygiad ar y Cyd ar gyfer pleidiau a'u haelodau a ddatblygwyd gyda chymorth annibynnol gan Sefydliad Jo Cox.
- Dylai Llywodraeth y DU barhau â mesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n bygyly. Dylai nodi'r ffyrdd y mae'n bwriadu creu trosedd etholiadol ar gyfer bygyly ymgeiswyr

ac ymgyrchwyr, a chadarnhau a fydd yn gosod dyletswydd gofal ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol drwy ei fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar niweidiau ar-lein.

- Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol fynd ati i gymryd camau i gyfyngu ar ymddygiad sy'n bygylu ar-lein; mae hyn yn cynnwys gweithredu'r camau ar gyfer cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a gynigiwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Rhaid parhau â'r camau i sicrhau'r prosesau democrataidd

Roedd llawer o bobl a sefydliadau yn pryderu ynghylch risgiau ymyrraeth o dramor neu dwyllwbyodaeth gyfundrefnol ac maent yn dal i bryderu ynghylch hyn. Bu sawl corff yn monitro'r risgiau hyn yn ystod yr etholiad.

- Rhoddodd Llywodraeth y DU strwythur cydgysyllteidig ar waith i nodi ac ymateb i faterion a oedd yn dod i'r amlwg ac amddiffyn diogelwch prosesau democrataidd, ac roeddem yn rhan o'r grŵp hwn
- Bu nifer o ymchwilyr a grwpiau academaidd yn astudio'r ffyrdd roedd pobl yn cael gafael ar newyddion am yr etholiad ar gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter ac yn rhannu'r newyddion hynny; roedd hyn yn cynnwys monitro am dystiolaeth o newyddion sothach neu dwyllwbyodaeth

Mae'n bwysig peidio â llaesu dwylo mewn perthynas â'r risgiau hyn ac mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod y gwaith yn parhau i archwilio'r agweddau hyn ar ôl yr etholiad.

Yn 2018, gwnaethom nodi meysydd lle gellid gwella cyfraith etholiadol er mwyn atgyfnerthu ffyrdd o amddiffyn rhag ymyrraeth o dramor mewn etholiadau yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth y DU nodi sut y bydd yn datblygu'r argymhellion hyn fel rhan o'i hymgyngoriad arfaethedig ar ymyrraeth o dramor:

- Dylai'r gyfraith egluro na chaniateir i sefydliadau nac unigolion o dramor wario arian ar ymgyrchoedd etholiadau na refferenda
- Dylid gwella'r rheolaethau ar roddion a benthyciadau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr, gan adeiladu ar y dulliau ar gyfer gwella diwydrwydd dyladwy ac asesu risg a ddefnyddir ym maes rheoleiddio ariannol

Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i ystyried sut y gellid gorfodi'r cyfreithiau arfaethedig hyn a sicrhau nad ydynt yn cael effaith anghymesur ar ryddid barn.